

Gwelliannau arfaethedig i ffordd bresennol yr A5025

Fersiwn Dau
Awst 2017



Pam mae angen i ni wella'r A5025 bresennol

Roedden ni wedi ymgynghori ynghylch ein gwaith arfaethedig i'r A5025 bresennol rhwng y Fali a safle Wylfa Newydd yn 2016. Rydyn ni wedi newid rhywfaint ar y cynigion ers hynny ar sail yr adborth a ddaeth i law ac oherwydd y gwaith dylunio ac asesu pellach rydyn ni wedi'i wneud.

Mae ein cynigion ar gyfer yr A5025 yn cynnwys gwella cyflwr a lled rhannau presennol o'r ffordd (rydyn ni'n galw'r rhain yn welliannau). Mae angen gwneud hyn yn benodol lle na fyddai modd i ddau gerbyd nwyddau trwm (HGV) neu fws basio ei gilydd yn ddiogel.

Bydd y gwaith uwchraddio'n gwella diogelwch ac yn helpu i atal oedi hir yn y dyfodol. Efallai fod wyneb y ffordd yn edrych yn iawn, ond mae profion wedi dangos bod yr haenau isaf mewn cyflwr gwael ar hyd y rhan fwyaf ohoni, felly mae'n well gwneud y gwaith hwn cyn bo hir, tra bydd lefelau'r traffig yn is na phan fydd Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu.

Mae ein cynigion diweddaraf rŵan yn cynnwys:

- mân addasiadau i'r ardaloedd lle bydd y gwelliannau'n ymuno ag adrannau newydd posibl y ffordd (newidiadau)
- pyllau newydd i ddal dŵr ffo (draenio) gyda phlanhigion o'u hamgylch
- mireinio manylion y croesfannau ar gyfer beicwyr/cerddwyr
- mwy o adrannau o wrychoedd, waliau cerrig a phlannu coed newydd ar hyd y ffin

Gwelliannau arfaethedig i ffordd bresennol yr A5025

Amseru

Bydd eich sylwadau ynghylch y cynigion yn cael eu hystyried wrth lunio'r fersiynau terfynol cyn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod hydref 2017.

Yn amodol ar gael caniatâd cynllunio ac ar brynu rhywfaint o'r tir sydd ei angen, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod hydref 2018.

Roedden ni wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch gwaith ar wahân i adeiladu adrannau newydd o ffordd fel rhan o'n hymgyngoriad Cam Tri, a'r bwriad ydy dechrau ar y gwaith hwn yn ystod hydref 2019 a byddai hyn yn cymryd tua 18 mis i'w gwblhau.

Mathau o Waith

• Lledu

Mae'r A5025 yn amrywio o ran lled rhwng y Fali a safle Wylfa Newydd. Mae angen lledu adrannau o'r ffordd, gan gynnwys rhai o'r troadau sydyn, er mwyn i gerbydau allu symud yn fwy diogel, yn enwedig cerbydau newyddau trwm.

• Mynedfa Breifat

Fel arfer, mae mynedfa breifat yn rhoi mynediad i eiddo ond nid yw'n rhan o'r rhwydwaith ffyrdd ei hun. Yn achos yr A5025, rhodfeydd yw'r rhain gan mwyaf (nid ydynt yn cynnwys mynedfeydd amaethyddol). Rydyn ni wedi asesu pob mynedfa breifat i weld sut mae ein dyluniad newydd yn effeithio arni. Pan fo'n briodol, rydyn ni wedi edrych ar welliannau ac wedi ysgrifennu at dirfeddianwyr y gallai hyn effeithio arny'n nhw.

• Rhoi wyneb newydd

Mae hyn yn golygu rhoi wyneb newydd ar y ffordd drwy chwistrellu bitwmen poeth ar y ffordd ac yna taenu'r cerrig mân a'u rholio i mewn. Bydd hyn yn sicrhau y bydd ansawdd wyneb y ffordd yn well ar hyd y llwybr. Bydd y gwelliannau arfaethedig i wyneb y ffordd yn ymestyn ei hoes ac yn darparu budd tymor hir i drigolion lleol.

• Ailadeiladu

Mae hyn yn golygu cael gwared ar yr haenau sy'n creu wyneb y ffordd a gosod haenau newydd. Rydyn ni wedi cynnal profion ar hyd yr A5025 i asesu cyflwr haenau gwahanol y ffordd er mwyn ein helpu i benderfynu ar ddyfnder wyneb y ffordd mae angen ei adnewyddu.

• Cyfleuster ailgylchu dros dro

Bydd angen i ni gael compownd cyfleuster ailgylchu dros dro er mwyn delio â'r deunyddiau a fydd yn cael eu codi o'r ffordd bresennol a'u hailgylchu er mwyn adeiladu'r ffordd newydd (edrychwch ar y lluniau isod i weld y peiriannau ailgylchu sy'n cael eu defnyddio fel rheol). Byddai hyd at 95% o'r deunyddiau'n cael eu haildefnyddio, sy'n lleihau'r angen i ddod â deunyddiau i mewn a'r angen i waredu deunyddiau. Rydyn ni'n cynnig safle wrth ymyl yr A5025 ger Cefn Coch ar gyfer hyn.

Rydyn ni'n cynnig gosod ffensys pren dim uwch na 2.4 metr i sgrinio'r cyfleuster o olwg pobl ac i wneud y cyfleuster yn ddiogel. Byddai'r ffens yn wyrdd er mwyn gwneud iddi weddu'n well. Bydd angen i ni gael goleuadau dros dro i wneud yn siŵr ein bod yn gallu gweithio'n ddiogel. Fydd y goleuadau yn ddim uwch na phum metr er mwyn helpu i leihau llygredd golau.



Gweithio'n lleol

• Contractwyr Lleol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon wedi gweithio gyda'u gilydd i sefydlu fframwaith ar gyfer contractwyr adeiladu. Mae hyn wedi cael ei strwythuro fel bod y pecynnau gwaith yn cael eu categorio yn ôl gwerth, gan ganiatáu i ystod eang o fusnesau lleol gymryd rhan.

• Cyswllt Cymunedol

Cyflogir swyddog cyswllt cymunedol penodol ar gyfer y gwelliannau i'r briffordd. Oherwydd bydd y swyddog yn gweithio i'r contractwr, bydd yn gwybod am holl fanylion y gwaith adeiladu, sut bydd y gwaith yn cael ei wneud a bydd yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Edrychwch ar ein gwefan yn www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad i ddarllen rhagor o wybodaeth am ein cynigion.